# Trwyddedu radio cymunedol

Ein cynlluniau ar gyfer gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol yn 2018

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Mehefin 2018

# Gair am y ddogfen hon

Ym mis Tachwedd 2017, gwnaethom wahodd grwpiau i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb mewn gwneud cais am drwydded radio cymunedol. Daeth 90 datganiad o ddiddordeb i law erbyn y dyddiad cau. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu gwahodd ceisiadau am drwyddedau newydd mewn rhai ardaloedd yn nes ymlaen eleni.

Byddwn yn defnyddio’r datganiadau o ddiddordeb a ddaeth i law i benderfynu ym mha ardaloedd y byddwn yn gwahodd ceisiadau. Ni fyddwn yn gwahodd ceisiadau ar gyfer pob ardal yr ydym wedi derbyn datganiad o ddiddordeb ar ei chyfer ar hyn o bryd. Byddwn yn defnyddio’r egwyddorion rydym wedi’u rhestru yn ein dogfen ‘galw am ddatganiadau o ddiddordeb’[1] i benderfynu ar yr ardaloedd.

Mae’r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer grwpiau sydd wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb mewn cyflwyno cais am drwydded radio cymunedol.

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/107586/radio-cymunedol-ddatganiadau-ddiddordeb.pdf

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad 4

2. Cynlluniau i wahodd rhagor o geisiadau 5

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Tachwedd 2016, bu Ofcom yn ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer trwyddedu rhagor o wasanaethau radio cymunedol a newidiadau i'n polisi technegol. Gwnaethom gyhoeddi datganiad ym mis Ebrill 2017[2].

1.2 Yna, ym mis Ebrill 2017, gwnaethom gychwyn ar bedwaredd cylch o drwyddedu radio cymunedol. Rydym wedi gwahodd ceisiadau mewn dau gam hyd yma. Roedd y ddau wahoddiad, a oedd yn rhestru ardaloedd penodol yr oeddem yn fodlon derbyn cais ganddynt, wedi'u llunio o'r 98 datganiad o ddiddordeb am drwydded a ddaeth i law ym mis Rhagfyr 2016.

1.3 Roedd y gwahoddiad cyntaf ar gyfer ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd. Daeth 36 cais i law, ac arweiniodd hyn at ddyfarnu 27 trwydded. Roedd yr ail wahoddiad ar gyfer trwyddedau radio cymunedol mewn ardaloedd a oedd yn gorgyffwrdd â gwasanaethau presennol. Daeth pedwar deg a phedwar o geisiadau i law, ac mae 17 trwydded wedi'i dyfarnu hyd yma.

1.4 Mae dros 250 o wasanaethau radio cymunedol yn darlledu yn y DU heddiw. Yn ein datganiad ym mis Ebrill 2017, gwnaethom ddweud y byddem yn gwahodd gorsafoedd presennol i wneud cais am wella'r ddarpariaeth bresennol yn eu hardal darpariaeth drwyddedig, neu ymestyn eu hardal darpariaeth drwyddedig bresennol petaent yn dymuno, ar ôl gwahodd ceisiadau am drwyddedau newydd.

1.5 Rydym yn gwahodd gorsafoedd trwyddedig presennol i wneud cais am y rhain nawr, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau a ffurflen gais, yn ogystal â pholisi darpariaeth radio analog wedi'i ddiweddaru ar ein gwefan ochr yn ochr â'r datganiad hwn. [3]Pwrpas y datganiad hwn ar ein cynlluniau ar gyfer gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol yn 2018 yw tynnu sylw unrhyw un sy'n dal i ddymuno gwneud cais am drwydded radio cymunedol newydd am ein cynlluniau ar gyfer cylch arall o drwyddedu, yn dilyn gwella ac ymestyn gwasanaethau trwyddedig presennol.

---

[2] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/cr-future-licensing

# 2. Cynlluniau i wahodd rhagor o geisiadau

## Cylch 4: trydydd gwahoddiad i wneud cais am drwyddedau radio cymunedol

2.1 Yn 2017, cysylltodd nifer o grwpiau â ni i ddweud eu bod yn dymuno cael y cyfle i wneud cais am drwydded radio cymunedol. O ganlyniad, gwnaethom wahodd rhagor o ddatganiadau o ddiddordeb ym mis Tachwedd 2017[4], gyda'r dyddiad cau ar 6 Rhagfyr 2017. Roedd hyn er mwyn ein helpu ni i ddeall faint o alw oedd yna ac ym mhle roedd y grwpiau a oedd yn dymuno gwneud cais am drwyddedau radio cymunedol.

2.2 Gwnaethom ddweud y byddai'r ymatebion a fyddai'n dod i law yn sail i wahoddiad pellach i wneud cais am drwyddedau radio cymunedol. Gwnaethom ychwanegu *"rydym yn rhagweld y bydd gennym amser i gwblhau cylch arall o drwyddedu cyn y bydd y fframwaith trwyddedu ar gyfer amlblecsau DAB graddfa fach yn barod i ni ei roi ar waith* (paragraff 1.2 yn y ddogfen galw am ddatganiadau o ddiddordeb).

2.3 Mae'r ddeddfwriaeth a fydd yn galluogi Ofcom i hysbysebu a dyfarnu trwyddedau amlblecs DAB graddfa fach wrthi'n cael ei pharatoi, ond nid yw'n barod eto. Felly, bydd gennym rywfaint o amser i gynnig rhagor o drwyddedau radio cymunedol analog (FM).

2.4 Ar wahân i hynny, fel y nodir ym mharagraffau 1.4 ac 1.5 uchod, rydym wedi gwahodd gorsafoedd presennol i wneud cais i wella eu darpariaeth (erbyn 31 Gorffennaf 2018); neu ymestyn eu hardal darpariaeth drwyddedig bresennol (erbyn 18 Medi 2018). Nid ydym yn gwybod faint o alw fydd ym mhob achos, ond rydym yn dymuno delio â'r rhan fwyaf o'r ceisiadau hynny cyn i ni ddechrau prosesu rhagor o geisiadau am drwyddedau newydd.

2.5 Roedden ni wedi gobeithio y bydden ni mewn sefyllfa i wahodd ceisiadau newydd pellach yn gynharach yn 2018. Yn ein datganiad yn Ebrill 2017, fe wnaethon ni gyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer trwyddedu radio cymunedol. Fe wnaethon ni ddweud mai ein blaenoriaeth gyntaf oedd i gynnal rownd drwyddedu newydd (gan ddefnyddio'r datganiadau o ddiddordeb wnaethon ni dderbyn yn 2016. Fe wnaethon

2.6 Mae 90 datganiad o ddiddordeb wedi dod i law ar gyfer trwyddedau newydd (roedd deg gan grwpiau sydd eisoes wedi gwneud cais am drwydded yn y cylch a oedd ar agor ar y pryd, ac mae rhai ohonynt wedi cael trwydded ers hynny). Rydym wedi penderfynu gwahodd ceisiadau ar gyfer trwyddedau radio cymunedol yn ystod chwarter olaf 2018. Ond, nid ydym yn disgwyl gallu gwahodd ceisiadau ar gyfer pob un o'r ardaloedd sydd wedi datgan diddordeb bryd hynny.

2.7 Pan wnaethom wahodd datganiadau o ddiddordeb, fe wnaethom ddweud *"Os byddwn yn cael nifer fawr o ddatganiadau o ddiddordeb, mae'n bosib y bydd angen i ni gyfyngu ar nifer yr ardaloedd a fydd yn gallu cyflwyno ceisiadau i ni. Mewn geiriau eraill, mae'n bosib na fyddwn yn gallu gwahodd ceisiadau ar gyfer pob ardal rydym wedi cael datganiad o ddiddordeb ar ei chyfer."* (paragraff 1.6 yn y ddogfen galw am ddatganiadau o ddiddordeb).

[4] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/107586/radio-cymunedol-ddatganiadau-ddiddordeb.pdf

2.8 Gwnaethom ychwanegu, yn yr achos hwn, y byddwn yn blaenoriaethu fel hyn:

a) ardaloedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau radio cymunedol ar hyn o bryd, ac ardaloedd nad ydym wedi cael unrhyw geisiadau ar eu cyfer yn ystod ein cylch trwyddedu presennol er ein bod wedi gwahodd ceisiadau (cliciwch yma – o dan y gwymprestr 'apply for a community radio licence' – i weld rhestrau o'r ceisiadau a gafwyd yn ystod 2017);

b) ardaloedd sydd ddim yn dod o dan bwynt a) ac rydym ni o'r farn ei bod yn rhesymol meddwl y bydd amleddau FM addas yn debygol o fod ar gael yn yr ardaloedd hynny;

c) unrhyw ardaloedd eraill.

2.9 Rydym yn defnyddio'r blaenoriaethau hyn i lunio rhestr o'r ardaloedd y byddwn yn eu gwahodd i gyflwyno ceisiadau. Rydym yn rhagweld mai dim ond yr ardaloedd sy'n dod o dan flaenoriaeth a) uchod y byddwn yn cael y cyfle i'w gwahodd i gyflwyno ceisiadau a phrosesu eu ceisiadau i ddechrau.

2.10 Rydym yn llunio rhestr o'r ardaloedd a byddwn yn ei chyhoeddi yn ystod yr haf (cyn y gwahoddiad i wneud cais).

## Argaeledd amleddau FM

2.11 Dylai ymgeiswyr posib fod yn ymwybodol bod diffyg amleddau FM addas mewn sawl rhan o'r wlad, a bod hyn yn broblem arbennig o amlwg mewn ardaloedd trefol a maestrefol, ond mae'n effeithio ar ardaloedd eraill hefyd.

2.12 Mae wedi bod yn bolisi gennym ers tro nad ydym yn hepgor ardaloedd o'r broses o wneud cais yn gyffredinol ar sail argaeledd amleddau. Ni all Ofcom warantu bod adnoddau amledd addas ar gael i ddiwallu anghenion unrhyw grŵp o ymgeiswyr. Gan ystyried hyn, dylai darpar weithredwyr radio cymunedol nodi mai nhw sy'n atebol am unrhyw risg sydd ynghlwm wrth eu cais.

## Y camau nesaf

2.13 Gan ddefnyddio'r datganiadau o ddiddordeb a ddaeth i law, byddwn yn llunio rhestr o'r ardaloedd yr ydym yn bwriadu eu gwahodd i wneud ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol gan ddefnyddio blaenoriaeth a) uchod. Byddwn yn cyhoeddi'r rhestr yn yr haf.

2.14 Yna, byddwn yn cyhoeddi gwahoddiad i wneud cais yn ystod chwarter olaf 2018. Bydd y gwahoddiad yn cynnwys rhestr o ardaloedd, ac ni fyddwn yn derbyn ceisiadau gan ardaloedd eraill, heblaw am y rhai sydd wedi'u rhestru.

2.15 Bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau tua thri mis ar ôl cyhoeddi'r gwahoddiad.

2.16 Mae'r ymgeiswyr posib yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf. Rydym yn argymell yn gryf bod unrhyw un sydd wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb, ac sy'n awyddus i wneud cais am drwydded, yn cofrestru i gael 'diweddariadau darlledu' Ofcom sydd ar gael ar ein gwefan. Ni fyddwn yn ysgrifennu at neb sy'n cyflwyno 'datganiad o ddiddordeb' i roi rhagor o wybodaeth.

2.17 Mae'n bosib y bydd ymgeiswyr posib yn dymuno ymgyfarwyddo a'r wybodaeth ychwanegol am drwyddedu radio cymunedol sydd ar gael ar ein gwefan (gan gynnwys canllawiau, ffurflen gais, cyngor i ymgeiswyr a sut mae dewis safle trosglwyddydd).

# 3. Rhestr o ardaloedd yng Nghymru

## Yr ardaloedd lle byddwn yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau

3.1 Byddwn yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau radio cymunedol yng nghwarter olaf 2018. Mae'r ardaloedd yng Nghymru wedi eu rhestri isod ac ni fyddwn yn derbyn ceisiadau am unrhyw ardaloedd eraill os nad ydynt wedi'u rhestri isod.

3.2 Mae rhai o'r ardaloedd a restrwyd yn cwmpasu dalgylch eang (rhai yn ganlyniad o fynegiad diddordeb mewn ardaloedd cyfagos, enghraifft). Gallai ceisiadau gael eu hystyried ar gyfer lleoliad neu leoliadau o fewn yr ardal a ddisgrifwyd, er annogir ymgeiswyr i darllen ein Polisi Darpariaeth a Chynllunio ar gyfer Radio Analog am ganllaw am bolisi darpariaeth ardal (rhan 4).

**3.3 Mae yna brinder o amlderau FM addas yn yr ardal. Ni all Ofcom warantu argaeledd adnoddau amlder addas i gyflawni anghenion unrhyw grŵp ymgeisio. Dylai'r darpar ymgeiswyr nodi bod y ceisiadau hyn yn cael eu cyflwyno ar eu risg eu hunain.**

| **Disgrifiad ardal (wedi ei gymryd o un o'r datganiadau o ddiddordeb)** | **Cenedl** |
|---|---|
| Merthyr Tudful (Canol Morgannwg) | Cymru |
| Lleoliadau o fewn Dyffryn Clwyd; Bae Cinmel, Abergel | Cymru |